CYLCHGRAWN UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

# Yr Athro

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Rhifyn Gorffennaf 25

Mae hi'n ddiwedd tymor ac felly'n gyfle i edrych yn ôl ar yr hyn a fu a'r hyn a gyflawnwyd dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf a hefyd yn gyfle i edrych ymlaen at flwyddyn newydd.

## YMDDYGIAD MEWN YSGOLION

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn wir ers y pandemig, gwelwyd cynnydd yn yr adroddiadau am ymddygiad gwael mewn ysgolion a cholegau. Ymddengys fod gan bob aelod o'r gweithlu addysg hanesion i'w hadrodd am heriau cynyddol a hynny mewn cyfnod lle mae cyllid yn lleihau, niferoedd mewn dosbarthiadau yn cynyddu a llai o fynediad at wasanaethau cefnogol.

Mae'r ymddygiad pryderus yn amrywio o ymddygiad aflonyddgar lefel isel fel cadw sŵn, i ddiffyg parch ac ymddygiad sy'n effeithio ar brofiadau dysgu'r dosbarth, i fygythiadau mwy difrifol o drais ac mewn rhai achosion, disgyblion yn cario a defnyddio arf neu arfau. Yr hyn sy'n amlwg yw fod angen ymateb yn ddiymdroi i'r dirwyiad hwn....*mwy ar dudalen 2.*







2 Tâl aelodaeth
3 Maniffesto
5 Dod i adnabod Swyddog Maes
6 Codiad cyflog

# YMDDYGIAD MEWN YSGOLION

Yn wyneb y sefyllfa bryderus hon a'r galw cynyddol gan y gweithlu a'r undebau addysg ar wleidyddion i ymateb i'r argyfwng, cynhaliwyd Uwch-gynhadledd Genedlaethol ar 22 Mai i ystyried ymddygiad plant a phobl ifanc yn ein hysgolion a'n colegau.

Ar ddiwedd yr Uwch-gynhadledd cyhoeddwyd y byddai'r canlynol yn digwydd:

- Cefnogi ysgolion a cholegau a chreu strwythurau angenrheidiol i gefnogi gwaith aml-asiantaethol i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol sy'n cyfrannu at ymddygiad anodd. Cydweithio gyda phartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder ieuenctid a phlismona ayb.
- Diweddaru'r arweiniad i ysgolion a cholegau, er mwyn sicrhau mwy o gysondeb ar draws Cymru.
- Sefydlu system (yn lleol a chenedlaethol) ar gyfer rhannu arferion gorau rhwng ysgolion, er mwyn dysgu gwersi o'r dulliau atal trais sy'n cael eu treialu mewn ysgolion ar hyn o bryd.
- Datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar dechnegau rheoli ymddygiad, tawelu sefyllfaoedd ac ymyrryd.
- Sicrhau diffiniadau cyson a chofnodi pob digwyddiad, er mwyn cael data clir a chyson a fydd yn galluogi bod y camau a gymerir yn seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd yn rhaid aros i weld pryd y bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith a beth fydd effaith y penderfyniadau hyn.

# TÂL AELODAETH

Rydym i gyd yn ymwybodol fod prisiau pob dim codi ac yn sgil costau cynyddol, yn anffodus, bu'n rhaid i'r Cyngor Cenedlaethol wneud penderfyniad anodd ond anorfod i godi tâl aelodaeth UCAC.
Yn wyneb y cynnydd hwn, mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r canlynol:

- mae tâl aelodaeth UCAC yn gystadleuol iawn– ymddengys mai UCAC fydd â'r gost ymaelodi leiaf am y flwyddyn academaidd 2025/26 (ac nid oes gan UCAC danysgrifiadau 'lleol' ychwanegol, fel sydd gan rai undebau)
- ni fydd tâl aelodaeth UCAC yn codi eto yn ystod y flwyddyn academaidd (bydd rhai undebau eraill yn codi eu tâl aelodaeth ym mis Ionawr)
- UCAC yw'r unig undeb sy'n cynnig ei holl wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
- mae UCAC yn cynnig gwasanaeth personol, cyfeillgar a chyflym

Mae'r tabl isod yn nodi'r tâl misol newydd o fis Medi 2025 ymlaen yn ôl categori aelodaeth:

| Categori Aelodaeth | Tâl Misol (yn daladwy ar ddiwrnod gwaith cyntaf pob mis) |
|---|---|
| Llawn Amser | £19.38 |
| 0.7-0.99 | £16.24 |
| 0.4-0.69 | £13.42 |
| 0.39 neu lai | £10.82 |

# MANIFFESTO

Fe fydd hi'n gyfle i bleidleisio i Senedd Cymru ym mis Mai 2026. Mae hi'n bwysig bod y pleidiau gwleidyddol yn rhoi ystyriaeth ddifrifol i addysg. Pa negeseuon y mae UCAC am eu cyfleu? Beth ddylai fod yn flaenoriaeth i'r pleidiau?

Bwriad **UCAC** yw llunio maniffesto yn nodi beth yw blaenoriaethau'r Undeb a beth y byddai'n hoffi ei weld yn digwydd o fewn byd addysg yng Nghymru.

Rydym wedi edrych ar gynigion a phenderfyniadau cynadleddau'r tair blynedd ddiwethaf (2023, 2024, 2025) ac wedi defnyddio'r rheiny yn sail i'n penderfyniad i lunio pedwar prif bennawd ar gyfer ein maniffesto:

**U**CHAFSWM ORIAU GWAITH WYTHNOSOL

**C**YLLID YSGOLION

**A**MODAU GWAITH

**C**YMRAEG

**Beth felly yw'r materion sydd ynghlwm wrth y penawdau hyn?**

1. **Uchafswm oriau gwaith wythnosol**

Ydych chi'n breuddwydio ac yn dyheu am swydd lle mae ffiniau pendant i'ch oriau gwaith? Yn anffodus nid oes ffiniau pendant i oriau gwaith swyddi addysgu. Byddai hi'n well i bawb hefyd pe bai mwy o oriau CPA a llai o oriau cyswllt. Mae dadl gref dros nodi y byddai hynny'n sicrhau gwersi o safon uwch a gweithlu hapusach. A beth am oriau hyfforddiant o fewn oriau gwaith? Wrth gyflwyno cyrsiau TGAU newydd, faint o athrawon sydd wedi gorfod dilyn cyrsiau hyfforddi y tu hwnt i oriau ysgol, neu wedi gorfod codi'n gynnar er mwyn mynychu cyrsiau hyfforddiant ymhell o'r gweithle arferol.
Mae'r rhan fwyaf o athrawon wrth eu bodd yn cyflwyno gwersi i'w disgyblion ac ymuno â'r proffesiwn er mwyn addysgu wnaeth y rhan fwyaf. Felly mae gorfod ymwneud â thoreth o waith gweinyddol yn dra rhwystredig. Mae angen sicrhau mai treulio amser yn addysgu y mae athrawon.

**2. Cyllid**

Rydym yn gweld ysgolion yn wynebu diffygion cyllidebol ac yn gorfod torri ar staff. Mae hyn yn ei dro yn arwain at ddosbarthiadau mwy, sy'n cynyddu problemau ymddygiad.  Rhaid i'r gyfradd athro:disgybl fod yn rhesymol, er mwyn sicrhau'r amodau gwaith gorau. Mae angen cyllid hefyd ar gyfer prynu adnoddau. Heb adnoddau dynol digonol nac adnoddau eraill digonol, nid ydym yn mynd i gau'r bwlch difreintedd ac ni fyddwn yn sicrhau chwarae teg i bob disgybl. Mae angen tryloywder o ran cyllid ysgolion, gan sicrhau bod pob ysgol yn cael ei chyllido'n gyson a theg. Mae angen sicrhau bod cyllid digonol ar gyfer diwallu gofynion y Ddeddf ADY. Ar sail Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 a Rheoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017 mae hawl gan gynrychiolwyr undeb i 'amser cyfleuster' – amser â thâl i wneud gwaith undebol. Mae'n bwysig, fel undeb llafur, fod UCAC, ac yn benodol ein cynrychiolwyr a'n llywyddion, yn cael yr amser priodol i gyflawni gwaith undebol. Rydym yn trafod codiadau cyflog mewn man arall yn Yr Athro. Rhaid pwysleisio yma eto pa mor bwysig yw sicrhau codiad cyflog digonol a hynnw wedi'i ariannu'n llawn.  Oni bai am hynny, bydd problemau cyllidol gwaeth fyth gan ysgolion.

**3. Amodau Gwaith**

Llwyth gwaith, ymddygiad disgyblion – dyma'r pynciau sydd, bron yn ddieithiriad, yn codi eu pennau wrth siarad ag athrawon y dyddiau hyn. Pe bai'r materion hyn yn cael eu datrys, byddai mwy o bobl yn debygol o ymuno â'r proffesiwn. Mae'n rhaid adfer parch at athrawon a sicrhau bod ysgolion yn llefydd diogel i athrawon a disgyblion fel ei gilydd. Yn anffodus, mae parch disgyblion a rhieni at athrawon wedi dirywio'n fawr ac mae hi wedi mynd yn fwyfwy heriol i sefydlu disgyblaeth, gan fod penderfyniadau ysgolion yn cael eu cwestiynu gan rieni. Mae'n bryd adfer parch at y proffesiwn - ar y cyfryngau ac yn y gymdeithas yn gyffredinol.

**4. Cymraeg**

Fel yr Undeb sy'n rhoi bri ar yr iaith Gymraeg, rydym yn awyddus i sicrhau fod y Gymraeg yn cael y statws priodol. Mae angen gweithlu digonol i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion. Rhaid sicrhau cefnogaeth a thegwch i'r Gymraeg – gan bwyso ar y Llywodraeth i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ymroi i recriwtio a chadw staff sy'n gallu addysgu drwy'r Gymraeg a rhoi hyfforddiant priodol i'r athrawon hynny sydd am ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.  Y disgyblion yn ein hysgolion yn awr yw dyfodol y Gymraeg ac mae'n bwysig ein bod yn sicrhau eu bod nhw'n cael pob cyfle i gaffael yr iaith.

Dod i adnabod....

# SWYDDOG MAES Y GOGLEDD



**Enw**: Roger Vaughan

**Swydd:** Swyddog Maes y Gogledd

**Hoff ddiddordebau:** Rwyf yn hoff iawn o goginio, gwrando ar gerddoriaeth a chwarae cerddoriaeth a mynd i'r theatr i wylio sioeau cerdd a dramâu.

**Hoff le yng Nghymru a pham:** Dw i wrth fy modd yn mynd am dro ar hyd lonydd cefn Dyffryn Nantlle. Rwyf yn lwcus iawn i fyw mewn ardal lle mae tawelwch a golygfeydd bendigedig mor agos.

**Hoff le bwyd:** Positano - Bwyty Eidalaidd yn Guildford

**Hoff bryd:** Anodd iawn curo Cinio dydd Sul

**Byw neu farw – pwy fuasech chi'n hoffi cwrdd i gael sgwrs dros baned?** Ers yn hogyn ifanc mae gen i ddiddordeb mawr yn y Tour de France. Byddai cael sgwrs dros baned gyda Geraint Thomas a chael clywed am hanesion ras seiclo enwoca'r byd yn wych.

**Y perfformiad gorau i chi ei weld:** Rwyf wedi bod yn ffodus i weld sawl perfformiad da iawn dros y blynyddoedd ond mae AC/DC yn Donington 1991, yr Eagles yn Lerpwl 2019 a Peter Kay yn Sheffield eleni yn sefyll allan.

**Pe baech yn cael newid un peth yn system addysg Cymru, beth fyddai hwnnw?** Cael system sy'n debyg i'r Alban o gyfyngu ar yr oriau mae disgwyl i athrawon ac arweinwyr eu gweithio mewn wythnos, er mwyn rhesymoli llwyth gwaith.

**Pam rydych chi'n mwynhau bod yn Swyddog Maes?** Mae rhoi cefnogaeth i athrawon a cheisio sicrhau tegwch yn bwysig. Dw i'n credu ei bod hi'n bwysig cydweithio gydag aelodau UCAC i geisio gwneud newidiadau er gwell i'r system yng Nghymru. Mae'r amrywiaeth o ymholiadau yn ddiddorol ac nid oes un diwrnod yr un fath.

# CODIAD CYFLOG –
## Siom aelodau UCAC

Unwaith eto eleni cafwyd siom na lynwyd wrth yr amserlen wreiddiol o ran cyhoeddi telerau codiad cyflog i athrawon. Golyga'r oedi na fydd unrhyw godiad cyflog yn cyrraedd y gweithlu tan ymhell i mewn i Dymor yr Hydref.

Nid yn unig yr amseru sydd wedi creu siom, ond mae yna nifer o agweddau eraill sydd wedi ein siomi fel Undeb. Argymhellwyd codiad cyflog o 4.8% gan CACAC (Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru), felly mae'n siom mai 4% yn unig o gyflog a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.

Er bod y codiad cyflog yn ymddangos, ar yr olwg gyntaf, yn godiad sylweddol, eto i gyd rhaid nodi nad yw'r codiad hwn yn sicrhau bod cyflogau athrawon yn cymharu'n ffafriol â chyflogau eraill ac nad yw cyflogau athrawon ar yr un lefel ag yr oeddent rai blynyddoedd yn ôl, a hynny oherwydd fod cyfraddau chwyddiant wedi codi ar raddfa dipyn uwch na chodiadau cyflog i athrawon.

Canlyniad hyn yw ein bod yn wynebu argyfwng o ran recriwtio a chadw athrawon.

Er mwyn denu athrawon a'u cadw yn y proffesiwn, mae'n rhaid i gyflogau fod yn gystadleuol ac yn apelgar, gan adlewyrchu'r gofynion cynyddol sydd ar y proffesiwn.

Mewn trafodaeth a gynhaliwyd yng nghyfarfod Cyngor Cenedlaethol UCAC rai diwrnodau ar ôl cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, mynegodd Cyngor Cenedlaethol UCAC ei siom ynghylch y codiad cyflog ond hefyd nodwyd barn gref hefyd fod angen mynd i'r afael yn ddiymdroi â llwyth gwaith athrawon a phroblemau ymddygiad yn ein hysgolion. Dim ond pan fydd athrawon yn derbyn amodau gwaith anrhydeddus a chyflogau teg ac yn derbyn y parch y maent yn ei haeddu y bydd modd mynd i'r afael â'r argyfwng presennol o ran recriwtio a chadw athrawon.

Dylid nodi hefyd na chyhoeddwyd yr adroddiad ar gyflogau athrawon yn y Gymraeg ar yr un adeg ag yr ymddangosodd y cyhoeddiad Saesneg. Gresyna UCAC yn fawr nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg.
Pam, unwaith yn rhagor, fod yn rhaid i ni aros am fersiwn Gymraeg o ddogfen mor bwysig â hon?






# GALW AM YMDDIRIEDOLWYR

Rydym yn awyddus i benodi ymddiriedolwyr newydd i gyfrannu at lywodraethiant yr Undeb. Mae croeso i unrhyw aelod neu gyn-aelod fynegi diddordeb, a'r Cyngor Cenedlaethol fydd yn penodi'n derfynol.

Prif rôl Ymddiriedolwyr UCAC yw llywodraethu a rheoli asedau'r Undeb:

- Gwarchod holl fuddsoddiadau'r Undeb, a derbyn cyngor gan yr ymgynghorwyr ariannol perthnasol
- Bod yn gyfrifol am eiddo'r Undeb, gan sicrhau fod anghenion iechyd a diogelwch yn cael eu diwallu a sicrhau bod yr eiddo yn cael ei gadw'n safonol.
- Sicrhau bod Cynllun Pensiwn UCAC yn cael ei weinyddu'n effeithiol ac yn gywir gydag arweiniad arbenigwyr.

Mae'n gyfrifoldeb cyffredinol ar yr Ymddiriedolwyr i sicrhau gwytnwch yr Undeb a disgwylir iddynt gyfrannu at drafodaethau yn ymwneud â chyllid a datblygiad UCAC.

Disgwylir i Ymddiriedolwyr fod ar gael i gyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.

Disgwylir i ymddiriedolwyr wasanaethu am dymor o dair blynedd, ond mae modd gwasanaethu am sawl tymor yn ddilynol.

Nid oes tâl i'r rôl hon, ond cynigir costau teithio.

Os oes diddordeb gennych i ymgymryd â'r rôl, cysylltwch â Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC ioan@ucac.cymru am sgwrs neu i fynegi diddordeb, gan roi crynodeb o'ch gyrfa ac amlinelliad yn egluro eich diddordeb.

# LLYWYDD CENEDLAETHOL UCAC



Ar ddiwedd mis Awst, bydd cyfnod Ceri Dafydd Evans yn dod i ben fel Llywydd Cenedlaethol UCAC a bydd yn dychwelyd i addysgu Cemeg a Gwyddoniaeth yn Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth yng Nghaerfyrddin. Dyma gyfle, felly, iddo edrych yn ol ar ei lywyddiaeth.

*Annwyl gyd-aelodau,*

*Mae hi wedi bod yn fraint ac yn anrhydedd cael bod yn Llywydd ar UCAC eleni, a hoffwn gynnig fy niolchiadau i chi fel aelodau am ymddiried ynof fi i wneud y rôl yma, ac am yr holl groeso a dderbyniais wrth ymweld â chymaint ohonoch chi.*

*Mae wedi bod yn flwyddyn brysur tu hwnt, gyda phwysau cynyddol ar ysgwyddau athrawon. Mae'r pwysau hwn yn amlygu ei hun mewn amryw o ffyrdd, boed hynny yn ddisgwyliadau i athrawon adael y dosbarth i newid cewynnau plant neu athrawon yn ceisio paratoi cyrsiau TGAU newydd heb yr amser i wneud hyn.*

*Mae Lynne Neagle, ein Hysgrifennydd Cabinet dros Addysg, yn mynnu ei bod hi'n gwrando! Mwy am hynny nes ymlaen.*

*Ffactor arall sydd yn ychwanegu pwysau a phryder ar athrawon yw ymddygiad, a hynny ar ddwy law. Ar y naill llaw mae ymddygiad rhai disgyblion yn warthus, ac ychydig iawn o gefnogaeth sydd gydag athrawon, ac ysgolion, i ddelio a hyn. Ar y llaw arall mae cynnydd mewn ymddygiad amhriodol rhai rhieni yn arwain at bwysau cynyddol ar athrawon ac ysgolion. Fe fu "Uwchgynhadledd ymddygiad" yn ddiweddar - o'm dealltwriaeth i dim ond un athrollawr dosbarth oedd yno i gynrychioli'r holl sector addysg Gymraeg a dwyieithog; er yn Llywydd ar yr Undeb, ni chefais i wahoddiad. Tybed ar bwy oedd ein gweinidog addysg yn gwrando?*

*Mae'r holl sgyrsiau i mi gael gydag aelodau dros y flwyddyn yn dweud mai'r ddau bwynt uchod, pwysau gwaith ac ymddygiad, sydd bwysicaf i athrawon. Byddai newid yr amodau gwaith i ddelio gyda'r rhain yn bwysicach na chodiad cyflog yn ôl y mwyafrif o aelodau i mi drafod â nhw. Mae hwn yn fy arwain at y cynnig arfaethedig am godiad cyflog. Mae codiad cyflog yn beth braf, wrth gwrs, ond, er bod ein Hysgrifennydd Cabinet dros Addysg yn honni iddi wrando, does dim sôn am newidiadau yn yr amodau gwaith. Wrth drafod y codiad cyflog roedd CACAC, y grŵp annibynnol sydd i fod awgrymu codiadau cyflog, wedi awgrymu codiad cyflog o 4.8%. Mae ein Hysgrifennydd Cabinet dros Addysg wedi dewis diystyru hwnnw a chynnig 4%. Mae Lloegr wedi cynnig 4% o godiad cyflog i'w hathrawon nhw, cyd-ddigwyddiad? Mae'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg yn hoffi dweud ei bod hi'n gwrando, ond y cwestiwn sydd gen i yw ' Ar bwy mae hi'n gwrando?'*

Rydym yn diolch i Ceri am ei waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn dymuno'n dda i Sara Edwards, wrth iddi hi ddechrau ar ei chyfnod hi yn Llywydd UCAC am y flwyddyn 2025-2026.

## EISTEDDFOD Wrecsam

2-9 Awst 2025

Eleni, bydd torfeydd yn tyrru i Wrecsam i'r Eisteddfod Genedlaethol. Os byddwch yn dod i'r Eisteddfod, cofiwch alw draw yn stondin UCAC. Bydd cyfle i chi gael sgwrs gyda rhai o staff UCAC dros gwpanaid o goffi neu de a chewch wefru eich ffôn neu eich dyfais electronig.

Bydd cyfle i chi rannu eich syniadau a nodi beth yr hoffech ei gynnwys ym maniffesto UCAC. Cofiwch, wrth gyfrannu at yr Ymgynghoriad hwn, bydd eich enw yn cael ei roi mewn het a bydd cyfle ichi ennill hamper o nwyddau o Gymru. Cofiwch alw heibio i'n gweld!

## BWRDD GOLYGYDDOL


**Llywydd Cenedlaethol:** Ceri Evans
**Is-Lywydd:** Sara Edwards
**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Ioan Rhys Jones
**Is-ysgrifennydd Cyffredinol:** Mererid Lewis Davies
**Cydlynydd Yr Athro:** Iona Davies
**Dylunydd:** Nia Evans

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.


Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at:


Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU
Ffôn: 01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru


Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru